

Cyngor Cymuned Llanelian (251)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Chwefror 4ydd 2014 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Dafydd Griffiths Gordon Hayes David Gerrard	Hefina Williams Glenys Jones T Elfyn Hughes	Helen Hughes Carol Whitaker David Herbert
Ymddiheuriadau:	Thomas D Jones	Cyng Richard Jones	Cyng Aled M Jones

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths.

Croesawyd aelodau o dim Celtic Array i'r cyfarfod a diolch iddynt am eu hamser.
Cytunwyd anfon cerdyn i ddymuno gwellhad buan i TD Jones yn dilyn ei ddamwain diweddar.

CET

1 Datgan Diddordeb

Neb yn datgan diddordeb.

2 Cyflwyniad gan Celtic Array – Fferm Wynt Rhiannon

Cafwyd diweddiariad ar ddatblygiadau prosiect Fferm Wynt Rhiannon gan aelodau o dim Celtic Array. Ers eu cyflwyniad diwethaf, maent wedi dewis safle i'r Is-Orsaf sef yr hen safle 'Shell' yn Rhosgoch. Maent hefyd wedi adnabod pedwar safle (o'r pump gwreiddiol) i ddod a'r ceblau i'r lan, un ohonynt ger Pwynt Leinws.

Trafodwyd nifer o bwyntiau a oedd yn codi pryder i'r Cyngor gan gynnwys cysylltu'r datblygiad a'r Grid Cenedlaethol; symud y trydan a gynhyrchir oddi ar Ynys Môn; maint y datblygiad gan gynnwys maint y tyrbinau; a'r goleuadau a fydd arnynt i'w gwneud yn amlwg i awyrennau a llongau.

Nid oedd gwybodaeth ar gael i ymateb i nifer o gwestiynau gan nad yw'r gwaith ymgynghori ac ymchwil wedi ei orffen.

Bydd angen i dri chorff gytuno a rhoi caniatâd i'r datblygiad -

- Yn y môr - bydd y penderfyniad yn cael ei wneud ym Mryste
- Ceblau - bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan y Cynulliad yng Nghaerdydd
- Ar y lan - bydd y penderfyniad yn cael ei wneud gan Gyngor Sir Ynys Mon.

Bydd mwy o ddigwyddiadau ymgynghori yn cymryd lle yn y gymuned yn ystod yr wythnosau nesaf, a gobeithir y bydd y cais cynllunio yn cael ei gyflwyno ddiwedd yr haf.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig Helen Hughes, Eilio T Elfyn Hughes.

4 Materion yn Codi

4.1 Cyfethol Aelodau - Yn dilyn cyfethol John Griffiths yn y cyfarfod diwethaf, deallwyd gan y Cyngor Sir bod angen hysbysu'r sedd wag mewn ffordd wahanol (gan mai sedd wedi dod yn wag wedi ymddiswyddiad oedd hwn) ac efallai y buasai angen etholiad. Golyga hyn nad oedd gan y Cyngor yr hawl i gyfethol yn y cyfarfod diwethaf. Mae'r clerc wedi cysylltu â John i esbonio'r sefyllfa, ac wedi dilyn canllawiau newydd y Cyngor Sir i hysbysu'r sedd.

CET

4.2 Mainc coffa - mae e-bost wedi ei dderbyn gan Mr a Mrs Dowgun yn diolch i'r Cyngor am eu hamser i drafod lleoli mainc coffa ac am yr awgrym i gysylltu â rheini sy'n gyfrifol am y llwybr arfordirol.

4.3 Yswiriant - penderfynwyd trafod anghenion yswiriant y Cyngor mewn mwy o fanylder pan fydd y polisi angen ei adnewyddu.

4.4 Cyfarfod Grŵp Prosiect Wylfa Newydd - fe aeth Dafydd Griffiths i'r cyfarfod ar ran y Cyngor Cymuned a chafwyd adroddiad byr o'r hyn a drafodwyd.

4.5 Newidiadau i Waharddiadau Parcio - cafwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir bod yr hawl gan ddeilydd bathodyn anabl barcio ar linellau melyn hyd at dair awr, ac yn y gilfan drwy'r dydd (heb waharddiad). Fe gytunodd yr aelodau i'r is-bwyllgor gyfarfod eto i drafod yr opsiynau ymhellach ac adrodd yn ôl i'r Cyngor llawn.

CET

5 Materion Ariannol

5.1 Derbyniwyd llythyrau o ddiolch gan Gymdeithas Lenyddol y Leinws ac Apêl y Cymry yn Fflandrys yn dilyn derbyn rhodd ariannol gan y Cyngor yn ddiweddar.

- 5.2 Ceisiadau am Arian - derbyniwyd nifer o lythyrau yn gofyn am gefnogaeth ariannol. Cytuno eu trafod yn y cyfarfod nesaf cyn gwneud unrhyw benderfyniad.
- 5.3 Cyfrifon – roedd copi o'r cyfrifon ar gael i'r sawl oedd am eu gweld.
- 5.4 Preiseb – Derbyniwyd ffigyrau ar gyfer Preiseb 2014/15. CET
- 5.5 Cytundeb Torri Gwair - mae'r cytundeb pum mlynedd i dorri'r fynwent a'r cae chwarae yn dod i ben eleni. Gofynnwyd i'r Clerc addasu'r hysbyseb gwreiddiol a'i arddangos. Bydd cyfle i drafod unrhyw geisiadau tendro yn y cyfarfod nesaf. CET

6 Cynllunio (ni fydd y Cynghorwyr Sirol yn cymryd rhan yn y drafodaeth)

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

7 Unrhyw Fater Arall

- 7.1 Cafwyd cais dienw am gopi electroneg o holl gofnodion y Cyngor yn 2013. Ar ol cysylltu ag Un Llais Cymru i ddatgan os oedd angen enw a chyfeiriad neu beidio, mae'r dogfennau priodol wedi eu hanfon.
- 7.2 Cwrdd â'r Heriau (Y Gyllideb 2014/15) - cafwyd adroddiad byr gan Dafydd Griffiths yn dilyn cyfarfod yn Llangefni i drafod y ddogfen yma gan y Cyngor Sir. Trafodwyd nifer o bwytiau a chytuno bod y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Clerc yn ysgrifennu ar ran y Cyngor i ddatgan eu sylwadau ar y ddogfen. CET
DG
HW
- 7.3 Lon Tyddyn Waen - mae e-bost wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir yn gofyn am sylwadau'r Cyngor i gael newid enw'r lon o 'Lon Bron yr Aur' yn ol i 'Lon Tyddyn Waen'. Cymhlethdod oedd y newid yma ar ran yr OS pan adeiladwyd tŷ o'r enw Bron yr Aur ar Lon Tyddyn Waen, ac nid yw enw'r lon wedi ei newid. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir a gofyn iddynt drefnu bod yr enw cywir yn cael ei arddangos ar fapiau OS. CET
- 7.4 Pwynt Leinws - daethpwyd i sylw'r Cyngor bod perchennog Pwynt Leinws wedi apelio cais i gadw'r hawl i'r cyhoedd gerdded ar y pentir. Cynigwyd bod llythyr yn cael ei anfon i wrthwynebu ei apêl os oedd gan y Cyngor yr hawl i wneud hynny. Roedd T Elfyn Hughes yn gwrthwynebu ysgrifennu llythyr o'r fath gan mai tir preifat yw'r pentir, ac nad oedd hawl gan y cyhoedd gerdded yno. Cytunwyd bod aelodau o'r Cyngor yn anfon llythyrau yn unigol petaent am wrthwynebu y cais fel unigolion.
- 7.5 Trawsfynydd - cafwyd e-bost gan Un Llais Cymru ar ran Grŵp Rhandeilwyr Gorsaf Niwclear Trawsfynydd yn ymwneud a chyfleoedd gwaith ar y safle, a'r bwriad i gael cyfnod o bum mlynedd heb unrhywun yn gweithio ar y safle. Gofynnir i'r Cyngor gefnogi cais i wrthwynebu'r cyfnod yma gan ei fod yn bwysig i bobl leol bod cyfleon gwaith ar gael, ac yn bwysig i'r safle bod pobl a sgiliau ar gael i'w cyflogi. Nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa i gefnogi'r cais heb fwy o wybodaeth. Oedd rheswm technegol a diogelwch er enghraifft pam fod cyfnod o bum mlynedd heb neb ar y safle?
- 7.6 Enwebiadau Anrhydeddau 2015 - Os oes unrhyw enwebiadau ar gyfer Anrhydeddau 2015, mae'r ffurflenni priodol gan y Clerc. Mae'r dyddiad cau ddiwedd mis Chwefror.
- 7.7 Ymgyrch Blodau'r Dyfodol – cynllun gan y Cyngor Sir i blannu blodau er cof am y rhai a gollwyd yn y Rhyfeloedd Byd.
- 7.8 Mae wyneb y lon o Bengorffwysfa at Ysgubor lthal angen sylw. CET

8 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf –

4/3/2014 – bydd Lowri Hughes yn dod i drafod ei gwaith yn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Mon
1/4/2014, 13/5/2014, 10/6/2014, 8/7/2014, 5/8/2014, 2/9/2014, 14/10/2014

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 9.45yh.